

# Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Penybont

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 4. Gwirfoddolwyr

### 4.27 Hyrwyddo'r Gymraeg drwy Wirfoddoli



Yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws swyddogol a chyfreithlon sy'n golygu

- Ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Mae safonau ynglŷn â'r Gymraeg yn cael eu cyflwyno yn ystod 2015–17, a fydd yn berthnasol i Llywodraeth Cymru, chyrrff cyhoeddus a'r parciau cenedlaethol. Maent yn batrwm o arfer da i fudiadau eraill.

Mae Comisiynydd y Gymraeg bellach yn cefnogi mudiadau trydydd sector i gynhyrchu Cynlluniau Hybu'r Gymraeg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu](http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu). Sefydlwyd y gwasanaeth hwn gyda'r Safonau newydd mewn golwg ac mae'n disodli'r gofyniad blaenorol i gyhoeddi 'Cynllun Iaith'.

Amlinellir isod rai o'r ffyrdd y gall mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr helpu i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

### Marchnata

Mae'r wefan ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli, [www.gwirfoddolicymru.net](http://www.gwirfoddolicymru.net), yn wefan ddwyieithog ac anogir mudiadau i lwytho cyfleoedd yn ddwyieithog pan fo'n bosib. Mae [arweiniad](#) ar gael ar y wefan i hwyluso hyn, sy'n cynnwys cyfieithu ymadroddion cyffredin a ddefnyddir wrth ddisgrifio rolau gwirfoddoli.

Mae [Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru: Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau](#) (2015) yn annog mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr i geisio "hyrwyddo cyfleoedd priodol i wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill os oes angen."

Mae taflen wybodaeth WCVA/Cynghorau Gwirfoddol Sirol, [Denu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg](#), yn cynnwys awgrymiadau ymarferol i gyrraedd a recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg a sicrhau eu bod yn teimlo bod croeso iddynt yn eich mudiad.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ymchwilio i [fuddion marchnata dwyieithog](#) gan fudiadau Trydydd Sector, yn fwy cyffredinol, a chanfod bod gwneud hynny yn fuddiol. Mae'n helpu i sefydlu naws Gymreig mudiad, rhywbeth y mae siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd yn ei werthfawrogi.

Roedd 70% o'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu y dylai elusennau sydd ar waith yng Nghymru farchnata'n ddwyieithog. Mae cyfathrebu dwyieithog o'r fath yn ychwanegu hygrededd ac yn dangos ymrwymiad i gymdeithas a diwylliant Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i fudiadau Trydydd Sector sydd a'i Prif Swyddfa y tu allan i Gymru.

## **Gweithrediadau a Darparu Gwasanaethau**

Wrth i fudiadau geisio gwella'r ffyrdd maent yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg, bydd potensial cynyddol i wirfoddolwyr ddefnyddio'r Gymraeg i gynorthwyo hyn.

Er enghraifft, mae arweiniad ar gael sydd wedi'i seilio ar ymchwil ddiweddar ar sut i gynnal hyfforddiant chwaraeon yn ddwyieithog. Mae modd trosglwyddo'r technegau a ddatblygwyd yn y maes hwn i feysydd eraill lle byddai cyfathrebu dwyieithog â grwpiau yn briodol.

Wrth i'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gynyddu, mae cyfle i wneud sylwadau a negeseuon trydar yn Gymraeg ac yn Saesneg ac efallai y gall gwirfoddolwyr gynorthwyo hyn.

Dylai anghenion penodol ar gyfer sgiliau Cymraeg gael eu gwneud yn glir wrth hysbysebu rolau gwirfoddoli, gan gynnwys y math o allu (gwrando a siarad, darllen, ysgrifennu) a lefel y gallu.

Cofiwch y gallai fod gan wirfoddolwyr presennol hefyd sgiliau iaith gwerthfawr y gellid eu defnyddio'n well er lles eich mudiad a'i fuddiolwyr.

## **Creu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr)**

Cydnabyddir bod gwirfoddoli yn broses ddwyffordd sydd o fudd i'r mudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ac i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Bydd rhaglenni gwirfoddoli da yn chwilio am ffyrdd i wirfoddolwyr dyfu a datblygu, p'un ai ar gyfer diddordeb a mwynhad personol, i ennill sgiliau bywyd neu i wella cyflogadwyedd.

Y nod wrth gyflwyno'r mesurau ynglŷn â'r Gymraeg yw y gall y rheini sy'n dymuno gwneud hynny fyw eu bywydau bob dydd drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.

Trwy wirfoddoli, gall mudiadau gynnig amgylchedd lle gall pobl gymdeithasu yn Gymraeg, neu ymarfer eu sgiliau iaith i wella eu hyder a'u gallu mewn sefyllfa anffurfiol. Gallant ddarparu ffordd i bobl ifanc sy'n gadael y system addysg Gymraeg barhau i ddefnyddio'r iaith ac, i'r rheini sy'n dal mewn addysg, ffordd o ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

## Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

[Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#) yw Safon Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr. Gall mudiadau ei defnyddio fel fframwaith i ddatblygu eu hymarfer mewn perthynas â gwirfoddolwyr, ni waeth a ydynt yn dewis cael eu hasesu i gyflawni'r nod ansawdd ai peidio.

Mae'r goblygiadau i'r Gymraeg yn rhedeg drwy bob un o naw o ddangosyddion y safon:

**Dangosydd 1** – mae'n gofyn am bolisi ysgrifenedig ar gynnwys gwirfoddolwyr. Gallai hyn gynnwys ymrwymadau, darpariaeth a chymorth y mudiad ar gyfer y Gymraeg.

**Dangosydd 2** – mae'n gofyn am adnoddau priodol ar gyfer rhaglenni gwirfoddoli. Mae darpariaeth ariannol ar gyfer costau cyfieithu ymysg y rhain.

**Dangosydd 3** – mae'n ymwneud â chroesawu amrywiaeth a mynd ati'n rhagweithiol i'w chynyddu. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo gwirfoddoli i gyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd targed. Mae data cyfle cyfartal yn cael ei fonitro fel ffordd o wella yn ogystal ag at ddibenion adrodd, a gallai hyn gynnwys data ynglŷn â gallu gwirfoddolwyr o ran y Gymraeg. Mae'r daflen wybodaeth, [Denu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg](#), yn arbennig o berthnasol yma.

**Dangosydd 4** – mae'n disgwyl eglurder ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir oddi wrth wirfoddolwyr. Gallai rôl-ddisgrifiadau, fel y nodir uchod, nodi'n amlach naill ai'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg neu ei gwneud yn ofynnol i fod yn rhugl yn y Gymraeg er mwyn cyflawni rôl wirfoddol.

**Dangosydd 6, 7, 8 a 9** – maent yn ymwneud â recriwtio, cynefino, cefnogi a chydabod gwirfoddolwyr. Mae pob un yn cynnwys cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig, gan godi'r cwestiwn pa mor bell y gellir rhoi darpariaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Dangosydd 9** – mae hefyd yn annog darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddatblygu eu sgiliau a'u doniau. Mae'r cyfle i wella sgiliau siarad Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg yn un ffordd i wirfoddolwyr ddatblygu drwy wirfoddoli.

## [PQASSO](#)

Mae'r 4<sup>ydd</sup> rhifyn o Safon Ansawdd PQASSO yn cynnwys gofynion newydd ynglŷn â dangos y defnydd o'r Gymraeg wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau, ac mewn agweddau eraill ar fywyd y mudiad gan gynnwys rheoli staff a gwirfoddolwyr a dysg a datblygiad staff a gwirfoddolwyr.

## Gwybodaeth Bellach

[Y Gymraeg a Gwirfoddoli](#) (Chwefror 2014) Comisiynydd y Gymraeg

Taflen Wybodaeth WCVA/Cynghorau Gwirfoddol Sirol [4.5 Denu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg](#)

[Buddion Marchnata Dwyieithog gan Elusennau yng Nghymru](#) (Awst 2014)  
Comisiynydd y Gymraeg

[Cynllun Hybu'r Gymraeg](#) adnodd hunanasesu i ddatblygu fframwaith er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich mudiad dros amser.

Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru: [Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau](#) (2015)

### Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

#### Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Penybont

112-113 Heol y Fasnach, Maesteg, Pen-y-Bont ar Ogwr, CF34 9DL

**Elusen Gofrestredig:** 1146543 Rhif Cwmni: 07691764

**Ffôn:** 01656 810400

bavo@bavo.org.uk

**Ffacs:** 01656 812151

www.bavo.org.uk



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
**Wedi ei ddiweddarau:** 05/01/2017